# Gofal Plant - barod i ddewis?

Canllaw ar ddewis gwarchodwr plant yng Nghymru



pacey | CYMRU

# Un o'r penderfyniadau pwysicaf a wnewch chi

P'un a ydych chi'n chwilio am waith, yn gwneud cwrs hyfforddi neu'n cymryd ychydig o amser i chi'ch hun, mae yna lawer o resymau gwahanol pam mae rhieni'n ystyried gofal plant.

Gall dewis y gofal plant cywir i'ch plentyn deimlo'n frawychus. Wedi'r cyfan, bydd gan bwy bynnag sy'n gofalu am eich plentyn ddylanwad enfawr arno yn ystod blynyddoedd mwyaf argraffadwy yn ei fywyd. Mae'n ddealladwy y bydd meddwl am roi eich plentyn i ddieithryn yn debygol o beri ychydig o bryder i chi. Fodd bynnag, bydd gofal plant o safon uchel nid yn unig o fudd i blant ac yn rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd iddynt, ond bydd hefyd yn rhoi tawelwch meddwl i chi. Bydd yn golygu y gallwch chi ganolbwyntio ar waith, astudiaethau, neu amser i chi'ch hun gan wybod bod eich plentyn yn ddiogel, a'i fod yn derbyn gofal da.

Mae yna lawer o wahanol fathau o ofal plant y gallwch ddewis o'u plith, a llawer o wahanol ddarparwyr gofal plant ledled Cymru. Mae'r pamffled hwn wedi'i gynllunio i roi ystyriaethau ymarferol i chi; yn ogystal â rhai cwestiynau i'w gofyn, felly gallwch chi wneud penderfyniad gwybodus.



# Mathau o ofal plant

**Mae yna lawer o wahanol fathau o ofal plant ar gael yng Nghymru, gan gynnwys:**

- Gwarchodwyr Plant
- Meithrinfa Ddydd Llawn
- Gofal Sesiynol Diwrnod Llawn
- Cylch Chwarae Sesiynol / Cylchoedd Meithrin
- Gofal plant y tu llan i'r ysgol, gan gynnwys clybiau brecwast a gwyliau
- Crèche
- Nanis
- Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored

Chi sydd i benderfynu ar y math o ofal plant rydych chi'n ei ddewis, ond mae'n werth ystyried anghenion eich plentyn; dewisiadau unigol; pryd a ble mae angen y gofal plant arnoch chi; eu hoedran; a'ch cyllideb.

Yng Nghymru, mae gofynion cyfreithiol i warchodwyr plant a lleoliadau gofal plant gael eu cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Fodd bynnag, nid oes angen cofrestru ac archwilio nanis, er bod llawer yn dewis ymuno â chynllun cymeradwyo AGC.



# Dechrau arni

Un o'r pethau pwysicaf i'w gwneud yw dechrau eich chwiliad yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach. Mae gan lawer o ddarparwyr gofal plant restrau aros, felly peidiwch â'u gadael tan y funud olaf i ddechrau ymchwilio i'ch opsiynau chi.

Mae argraffiadau cyntaf yn cyfrif am lawer, ond cyn i chi hyd yn oed ymweld â lleoliad gofal plant gallwch wneud rhai gwiriadau cefndir. Trwy ddarllen adroddiad arolygu diweddaraf darparwr gofal plant cofrestredig gan Arolygiaeth Gofal Cymru, gallwch gael trosolwg da o'i wasanaethau.

Fodd bynnag, yn aml dim ond drwy fynd i ymweld â lleoliad gofal plant y byddwch chi wir yn cael teimlad am ansawdd y gofal a ddarperir ganddynt.

Mae lleoliadau gofal plant o safon uchel yn sicrhau bod gofalwyr a phlant yn datblygu perthnasoedd cryf, bod plant yn teimlo'n ddiogel ac yn cael cyfleoedd i ddysgu a datblygu trwy ystod o weithgareddau amrywiol. Mae'r diwrnodau wedi'u strwythuro, a gall plant fwynhau llawer o ryngweithio cadarnhaol gan y rhai sy'n gofalu amdanynt. Bydd gan y lleoliadau hyn lawer o ffyrdd hefyd i'ch cadw chi'n rhan o gynnydd eich plentyn, p'un a yw hynny'n ddiweddariad dyddiol neu'n gyfnodolyn dysgu a rennir felly ni fyddwch yn colli allan ar y cerrig milltir pwysig hynny.

**Dechreuwch eich chwiliad yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach.**



# Pa fath o ofal plant dylwn i ei ddewis?

Pan ddaw hi'n amser dechrau eich chwiliad, meddyliwch am eich blaenoriaethau a'r hyn rydych chi am i'ch plentyn ei gael yn ystod ei amser gyda darparwr gofal plant.

- Meddyliwch pa fath o brofiad rydych chi am i'ch plentyn ei gael.
- Ystyriwch a yw'n well gennych ddull personol, hyblyg, yn y cartref, neu leoliad mwy o faint.
- Meddyliwch am yr oriau a'r dyddiau rydych chi angen gofal plant ar eu cyfer. Bydd p'un a ydych chi'n gweithio oriau swyddfa arferol neu sifftiau afreolaidd yn cael effaith fawr ar eich dewisiadau.
- Cofiwch, mae lleoliad yn hollbwysig. Byddwch yn treulio llawer iawn o amser yn teithio yn ôl ac ymlaen i'r lleoliad a ddewiswch, felly mae'n bwysig dewis yn ddoeth.
- Defnyddiwch eich Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGiD) lleol sydd â manylion yr holl ddarparwyr gofal plant cofrestredig lleol. Darllenwch eu hadroddiad arolygu AGC ac yna gwnewch restr fer o'r rhai yr hoffech ymweld â nhw.
- Gofynnwch i ffrindiau, cymdogion a rhieni rydych chi'n eu hadnabod yn yr ardal leol am argymhellion. Bydd profiad personol yn rhoi'r mewnwelediad gorau i chi o sut beth yw lleoliad mewn gwirionedd.



# Beth yw gofal plant o safon?

Mae'n anodd crynhoi ystyr gofal plant 'o safon' oherwydd bod llawer o bethau yn cyfrannu at anssawdd lleoliad gofal plant. Dyma ambell awgrym i ddechrau.

**Mae darparwyr gofal plant o safon yn sicrhau'r canlynol:**

- bod gan bob plentyn person allweddol sy'n ymatebol ac yn ofalgar, ac sy'n gyfarwydd â diddordebau ac anghenion unigol plentyn.
- bod gwarchodwyr plant a'r plant yn datblygu perthynas gref, gyda llawer o ryngweithio cadarnhaol ae gwarchodwyr plant a phlant yn datblygu perthynas gref, gyda llawer o ryngweithio cadarnhaol.
- bod plant yn teimlo'n hyderus ac yn ddiogel, yn y lleoliad ac wrth ymweld â lleoedd eraill.
- bod gan blant gyfleoedd i chwarae, dysgu a datblygu drwy amrywiaeth o weithgareddau amrywiol a llawn hwyl.
- bod diwrnodau wedi'u strwythuro gydag amserlenni cyfarwydd a chyfleoedd am ddysgu a arweinir gan blant ac oedolion.
- bod plant yn gallu mwynhau bwyd maethlon ac y cânt eu hannog i wneud dewisiadau iach.
- bod gan warchodwyr plant yn y lleoliad yr hyfforddiant a'r cymwysterau priodol a'u bod yn adfyfyrio ar ymarfer gorau yn barhaus.
- bod gwarchodwyr plant yn gweithio ar y cyd â rhieni ac yn rhoi'r diweddaraf i chi am gynnydd eich plentyn, er enghraifft drwy ddiweddariad dyddiol neu ddyddiadur dysgu a rennir.



# Ydych chi wedi ystyried gwarchodwr plant?

Gall gwarchodwyr plant cofrestredig gefnogi chwarae, dysgu a datblygiad eich plant mewn cartref.

Ar y cyd â darparwyr gofal plant eraill, caiff gwarchodwyr plant cofrestredig eu rheoleiddio gan y Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) ac yn gweithio i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed.

Mae llawer o fuddion i ddewis gwarchodwr plant i ofalu am eich plentyn:

## Gofal personol

Mae gwarchodwyr plant yn gofalu am grwpiau llai o blant, felly maent yn gallu rhoi sylw personol i'ch plentyn ac ymlyniad diogel os oes angen. Mae gwarchodwyr plant yn ddewis delfrydol i blant ifanc yn benodol. Mae ymchwil wedi dangos bod gan warchodwyr plant effaith benodol o gadarnhaol ar iaith a datblygiad gwybyddol plant.



## Hyblygrwydd

Yn aml, gall gofal plant yn y cartref ganiatáu cychwyn yn gynnar; casglu o'r ysgol a gollwng yno; teithiau i'r feithrinfa, cyn-ysgol, grwpiau i fabanod neu sesiynau chwarae meddal; yn ogystal â gofal dros nos neu ofal mewn argyfwng a sesiynau hyblyg ar gyfer gweithwyr sifftiau.

## Digymhellrwydd

Gall gwarchodwyr plant yn y cartref fod yn hyblyg ac felly gwneud y gorau o'r tywydd gyda theithiau difyfyr allan. Yn ogystal, gall eich plentyn fwynhau profiadau dysgu bywyd go iawn fel coginio, siopa, garddio ac amser bwyd gydag eraill.

## Amgylchedd teulu

Gan fod rhai gwarchodwyr plant yn gofalu am amrywiaeth o oedrannau, mae'n golygu y gellir gofalu am aelodau'r teulu gyda'i gilydd, gan eu helpu i greu a chynnal perthynas gref rhwng brodyr a chwiorydd – gan wneud bywyd yn haws i'r teulu cyfan. Mae bod gydag eraill o wahanol oedrannau hefyd yn helpu plant i ddysgu addasu pan ddaw i weithio a chwarae gyda'i gilydd.

## Dilyniant

Yn aml, gall gwarchodwyr plant weithio gyda theulu am flynyddoedd, gan ofalu am eu plant o oedran ifanc iawn, hyd at flynyddoedd ysgol lle maen nhw'n cynnig gofal cofleidiol cyn ac ar ôl ysgol. Mae cynnig gofal plant am gyfnod mor hir yn caniatáu i berthynas gref ddatblygu rhwng gwarchodwyr plant, y plant yn eu gofal a'u teuluoedd.

## Proffesiynoldeb

I gofrestru, rhaid i warchodwyr plant gael hyfforddiant cyn-gofrestru; cael gwiriad DBS ac ymgymryd â hyfforddiant perthnasol arall, gan gynnwys cymorth cyntaf pediatreg. Ar ôl gwneud cais i AGC, gwneir nifer o wiriadau gan gynnwys ymweliad cartref, a cheir tystlythyrau cyn y gallant gofrestru. Rhaid i warchodwyr plant feddu ar yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, cael eu harchwilio'n rheolaidd, cwblhau adolygiadau blynyddol o safon y gofal a chymryd rhan mewn hyfforddiant parhaus. Mae PACEY yn cynnig aelodaeth i warchodwyr plant cofrestredig, gan eu helpu i ddarparu'r safonau gofal ac addysg gorau i blant ifanc.

# Gofyn y cwestiynau cywir

Nawr bod gennych chi syniad o'r hyn i edrych amdano mewn gwarchodwr plant, mae'n syniad da dechrau llunio'ch rhestr fer. Gwnewch ymholiadau cychwynnol ynghylch eu hargaeledd a gwnewch yn siŵr eu bod yn gallu darparu ar gyfer y dyddiau a'r amseroedd sydd eu hangen arnoch chi, cyn i chi fynd i ymweld â nhw.

Pan fyddwch chi'n trefnu apwyntiad i ymweld, mae'n syniad da mynd â'ch plentyn gyda chi. Gwyliwch sut mae'r gwarchodwr plant yn rhyngweithio â'ch plentyn. Ydyn nhw'n canolbwyntio ar eich plentyn? Sut maen nhw'n rhyngweithio â nhw? Ydyn nhw'n ymddangos â diddordeb? Mae ymchwil yn dangos bod rhyngweithio cadarnhaol rhwng gwarchodwyr plant a phlant wrth wraidd gofal o safon uchel.

Paratowch restr o bethau yr hoffech chi eu darganfod. Ceisiwch ddarganfod cymaint o wybodaeth gefndir â phosib, megis pa mor hir mae'r gwarchodwr plant wedi'i gofrestru, faint o blant sy'n derbyn gofal, oedrannau'r plant ac amseroedd agor.

**Os oes gennych farn gref ar unrhyw agwedd ar rianta, gwnewch yn siŵr bod y lleoliad rydych chi'n ei ddewis yn rhannu'ch gwerthoedd. Os oes gan eich plentyn anghenion ychwanegol, os oes ganddo gyflwr meddygol neu alergedd neu anoddefgarwch, dylech sicrhau bod y darparwr gofal plant yn deall ei ofynion ac yn gallu darparu ar eu cyfer.**





## Cwestiynau i'w gofyn i'ch darparwr gofal plant:

- Beth yw cost gofal? Beth sydd wedi'i gynnwys mewn ffioedd a beth sydd ddim? Er enghraifft, a oes costau ychwanegol ar gyfer bwyd, cewynnau, weips ac ati?
- Sut ydych chi'n sicrhau diogelwch plant yn eich gofal?
- Pa brofiad a/neu gymwysterau sydd gennych chi a pha hyfforddiant sydd ar waith?
- Beth yw'r drefn nodweddiadol yma?
- Ydych chi'n darparu bwyd? Os felly, a allwch chi ddarparu copi o'r bwydlenni amser bwyd a byrbrydau?
- Oes gennych chi fynediad i ofod awyr agored?
- Ydych chi'n trefnu unrhyw dripiau?
- Sut mae chwarae, dysgu a datblygu plentyn yn cael ei gefnogi?
- Sut mae cynnydd plentyn yn cael ei gofnodi a sut mae'r wybodaeth honno'n cael ei rhannu â rhieni?
- A yw'r lleoliad yn cynnig lleoedd a ariennir gan y llywodraeth neu ofal plant di-dreth?
- Beth yw eich trefniadau ar gyfer gollwng a chasglu ysgolion?
- Beth yw oedrannau plant eraill yn eich gofal?
- Beth yw'r dull o ddisgyblu a sut mae ymddygiad plentyn yn cael ei reoli?
- Allwch chi ddarparu tystlythyrau rhieni?

# Chwalu mythau gwarchodwr plant

**Myth:**
**Dim ond 'babysitters' yw gwarchodwyr plant; mae plant yn chwarae a ddim yn dysgu cymaint â gwarchodwr plant.**

**Ffaith:**
Mae chwarae'n elfen hanfodol i gynorthwyo plant i feddwl a gwneud synnwyr o'r byd o'u cwmpas. Mae gwerth chwarae yn cael ei ddeall gan warchodwyr plant a fydd â threfn ddyddiol ar waith i sicrhau bod anghenion dysgu a datblygu plant yn cael eu diwallu. Mae hyn yn cynnwys ystod o weithgareddau ysgogol gan gynnwys chwarae creadigol, chwarae anniben, chwarae awyr agored, darllen, adrodd stori, chwarae rôl a cherddoriaeth. Gall gwarchodwyr plant fynd â phlant ar deithiau rheolaidd; yn dibynnu ar yr oriau y mae plentyn yn mynychu lleoliad; a chymryd rhan mewn grwpiau a gweithgareddau yn yr ardal leol.

**Myth:**
**Bydd gwarchodwr plant yn disodli'r rhieni yng nghalon y plentyn.**

**Ffaith:**
Mae gan rai rhieni, yn enwedig mamau sy'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl absenoldeb mamolaeth, bryderon y bydd gwarchodwr plant yn meithrin perthynas agosach â'r plentyn na hwy, gan ychwanegu at bryderon emosiynol am adael plentyn ifanc. Y gwir amdani yw bod gwarchodwyr plant yn deall bod perthynas plentyn â rhiant / rhieni o'r pwys mwyaf ac nad ydyn nhw byth yn ceisio eu disodli.

Mae gan warchodwyr plant brofiad o weithio mewn partneriaeth â rhieni ac mae ganddyn nhw rôl allweddol i'w chwarae wrth gefnogi'r cyfnod pontio hwylus rhwng y cartref a lleoliad gwarchodwr plant ac ymlyniad â'r plentyn. Y tebygrwydd yw y bydd perthynas broffesiynol yn tyfu rhwng y teulu a'r gwarchodwr plant dros amser sy'n cefnogi pawb dan sylw ac yn sicrhau canlyniadau gwell i deuluoedd.

**Myth:**
**Mae gwarchodwr plant yn gweithio i mi (y rhiant).**

**Ffaith:**
Mae gwarchodwyr plant yn hunangyflogedig ac yn ymrwymo i gytundeb â rhiant i ddarparu gwasanaeth gwarchod plant. Mae'r trefniant hwn yn creu cydraddoldeb rhwng y gwarchodwr plant a'r rhiant sydd er lles gorau'r plentyn dan sylw.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod y rhiant yn talu ffi am y gwasanaeth gwarchod plant a ddarperir a bod y gwarchodwr plant yn gyfrifol am reoli ei dreth a'i yswiriant ei hun.

**Myth:**
**Mae gwarchodwyr plant yn anghymwys.**

**Ffaith:**
Mae llawer o warchodwyr plant yn weithwyr proffesiynol cymwys iawn ac wedi ymrwymo i'w datblygiad personol. Fel rhan o'r broses i gofrestru fel gwarchodwr plant, bydd wedi gorfod tystio i'w gwybodaeth am ddatblygiad plant a bydd cofnodion o hyfforddiant a chymwysterau wedi'u cymryd i'w rhannu gyda'r rhai sy'n edrych i ddefnyddio eu gwasanaeth.



# Barn a rennir gyda ni

## Persbectif rhiant

"Pan ddechreuais i chwilio am ofal plant, fy mlaenoriaethau oedd dod o hyd i rywun profiadol a fyddai'n cefnogi datblygiad fy mhlentyn - yn gorfforol ac yn emosiynol. Roeddwn yn awyddus i archwilio gwarchod plant gan fy mod yn gwybod fy mod eisiau i fy merch fod mewn lleoliad cartref.

Unwaith i mi ddod o hyd i fy ngwarchodwr plant, wnes i ddim edrych yn ôl. Fe wnaeth ddychwelyd i'r gwaith gymaint yn haws trwy ddod o hyd i rywun y gallwn i ymddiried ynddo. Fel aelod o PACEY, mae hi'n cymryd ei hyfforddiant a'i datblygiad proffesiynol o ddifrif ac mae gen i ffydd lwyr yn ei gwybodaeth broffesiynol fel arbenigwr blynyddoedd cynnar. Mae hi wedi rhagori ar fy nisgwyliadau ac rydw i bob amser wedi bod mor hapus yn gweld fy mhlant yn disgleirio yn ei gofal. Mae ei chartref yn llawn cariad, ac mae ei chyngor, empathi a hyblygrwydd wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n bywydau.

Cafodd ein gwarchodwr plant effaith barhaol ar fy mhlant, maen nhw'n ei haddoli, ac maen nhw'n fwy cymdeithasol. Am hynny rwy'n teimlo'n hynod ffodus ac yn gwybod fy mod wedi gwneud y penderfyniad cywir."

**Emma, Rhiant i ddau o blant**

## Persbectif gwarchodwr plant

"Y pethau gorau am warchod plant yw cael teuluoedd eraill i ymddiried ynoch chi i ofalu am eu trysorau bach a'u helpu - nid yn unig trwy edrych ar ôl eu plant - ond trwy fod yno iddyn nhw geisio gwneud eu bywyd yn haws oherwydd ei bod yn anodd iawn i rieni i fynd allan i weithio a cheisio jyglo hynny gyda theulu felly rydw i yno i geisio gwneud eu gwaith yn haws."

**Kim, Gwarchodwr Plant Cymru**



# Gwybodaeth, help a chymorth

### Cymorth gyda chostau gofal plant

Mae'r Llywodraeth yn darparu lefelau a mathau amrywiol o gyllid i helpu rhieni a gofalwyr gyda chostau gofal plant. I gael gwybod pa opsiynau gofal plant sydd ar gael ac i gael gwybodaeth fanylach, cysylltwch â'ch tîm Gwasanaeth Gwybodaeth Teulu lleol neu ewch **cymorth i dalu am ofal plant.**

### Gwybodaeth bellach

Mae'r canlynol yn nifer o sefydliadau sy'n gallu rhoi gwybodaeth, help neu gymorth wrth ddewis gofal plant, gan gynnwys: Mae'r Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY) yn darparu ystod o **wybodaeth i rieni** gan gynnwys **profiad rhieni o ddychwelyd i'r gwaith.**

**Y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Lleol**

**Dewis Cymru**

**Arolygiaeth Gofal Cymru**
**Gwybodaeth i'ch cefnogi wrth ddewis gwarchodwr plant**

**Dod o hyd i adroddiadau gwasanaethau gofal ac arolygiaeth**

**Gofalwn Cymru:**
**Darllen am warchodwr plant.**



02920 351407

paceycymru@pacey.org.uk

www.facebook.com/paceycymru

www.twitter.com/PACEYCymru

PACEY yw'r Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar yw PACEY. Elusen ydym ni, a ffurfiwyd ym 1977, sydd wedi ymroi i gefnogi pawb sy'n gweithio yn y maes gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar i ddarparu gwasanaethau, gwybodaeth a chyngor o safon uchel i blant, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Ar draws Cymru a Lloegr rydym yn darparu hyfforddiant, cyngor arbenigol, help a chymorth rhwng cymheiriaid ynghyd â chymorth ymarferol a diduedd a gwybodaeth i deuluoedd a gofalwyr a'r bobl sy'n eu cynghori.

Am ragor o wybodaeth am PACEY ewch i pacey.org.uk

© Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar (PACEY) 2022

pacey | CYMRU

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government